



Annwyl Riant/Warcheidwad

Dyddiadau Allweddol

Dydd Mercher	26/5	Gweithgareddau ymadael Blwyddyn 13
Dydd Iau	27/5	Gweithgareddau ymadael Blwyddyn 11
Dydd Gwener	28/5	Diwrnod HMS
Dydd Llun-Gwener	31/5-4/6	HANNER TYMOR
Dydd Llun-Gwener	7/6-11/6	Wythnos paratoi am y dyfodol – darpariaeth ar-lein i flwyddyn 12
Dydd Mercher	9/6	Diwrnod HMS
Dydd Mawrth	15/6	Canlyniadau dros-dro Safon Uwch / UG
Dydd Mercher	16/6	Canlyniadau dros-dro TGAU
Dydd Iau a Gwener	17&18/6	Apwyntiadau i drafod canlyniadau
Dydd Mercher	23/6	Diwrnod cyflwyno'r chweched

Disgwyliadau Penweddig

Anfonwyd llythyr i chi wythnos yn ôl yn amlinellu ein disgwyliadau wrth i ni ddychwelyd at batrwm o normalwydd. Rydyn ni wedi bod yn atgoffa disgyblion o'r disgwyliadau a byddwn yn dychwelyd nôl i'n disgwyliadau arferol dros o ddydd Mawrth.

Llongyfarchiadau: Ysgoloriaethau

Llongyfarchiadau i Rhys James, Ifan Davies, Elin Williams a Ioan Morris sydd wedi derbyn ysgoloriaethau partneriaeth gan brifysgol Aberystwyth.

Llongyfarchiadau i Rhys Bishop sydd wedi derbyn ysgoloriaeth gan y fyddin.

Llongyfarchiadau: Cerdd groeso Eisteddfod T

Bydd pedwar o'n disgyblion yn cynrychioli'r ysgol trwy gydweithio gyda Gruffudd Owen, Bardd Plant Cymru ar gerdd croeso Eisteddfod T. Rwy'n hyderus bydd Alys, Beca, Hazel a Fergus yn elwa o'r profiad.

Llongyfarchiadau: Perfformiadau cerddorol

Braf yw gweld criw mawr o ddisgyblion yr ysgol yn perfformio mewn cyngerdd arbennig sy'n cael ei ddarlledu ar YouTube ar hyn o bryd. Mae cantorion ac offerynwyr o flwyddyn 7 i 13 yn rhan o brosiect a drefnwyd ar y cyd rhwng Gwasanaeth Cerdd Ceredigion a The West End of Wales. Er mwyn gwyllo, nodwch y linc yma i'ch porwr - www.youtube.com/watch?v=cnjxn8gWdas <<http://www.youtube.com/watch?v=cnjxn8gWdas>>

Trefniadau gwersi peripatetig

Rydyn ni heddiw wedi derbyn cadarnhad gan y sir fod nifer o gyfyngiadau yn cael eu llacio neu eu newid. Byddwn yn adolygu sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ein disgyblion ond roedd yn braf i weld dyddiad ar gyfer gwersi cerddorol peripatetig yn ail-ddechrau 'yn y cnawd'. Bydd y gwersi hyn yn ail-ddechrau ar 28ain o Fehefin.

Teithio i'r ysgol

Ar feic: Mae llwybr beiciau newydd wedi ei agor yn cysylltu'r ysgol gyda Llanbadarn fawr. Fel rhan o'r cynllun bydd man storio beiciau o dan orchudd yn cael ei ychwanegu i'r rac beiciau ger y bae bysiau.

Ar droed: Mae pellter cymdeithasol yn parhau yn ddisgwyliad wrth deithio i ac o'r ysgol. Mae angen sicrhau bod modd i aelodau o'r cyhoedd a rhieni a disgyblion pasio ei gilydd gyda phellter digonol. Mae cwyn wedi dod gan aelod o'r cyhoedd bod hwn yn broblem ar ddiwedd y dydd ysgol ger Mynwent Eglwys Llanbadarn Fawr. Gofynnwn i bawb ystyried eraill a sicrhau eu bod yn cadw pellter a galluogi eraill hefyd i gadw pellter cymdeithasol.

Ar fws: Os yw disgybl yn dod i'r ysgol ar fws ysgol, mae'r ysgol yn gyfrifol am y disgybl yn syth wrth iddynt adael y bws. Ni fyddwn yn caniatáu disgyblion i adael y safle os ydynt yn cyrraedd ar fws a gofynnwn am eich cydweithrediad yn y mater – os yw disgybl yn cael apwyntiad meddygol ac yn defnyddio'r bws ysgol i gyrraedd bydd angen nodyn rhiant i adael y safle, fel unrhyw apwyntiad yn ystod y dydd ysgol.

Mewn car: Gofynnaf yn garedig i chi osgoi parcio a blocio Cilgant Padarn fel bo modd i drigolion y stryd cael mynediad i'w tai.

Blwyddyn 11

Mae llawer o newid i flwyddyn 11 dros yr wythnosau nesaf. Bydd eu hasesiadau ffurfiol yn gorffen ar fore lau, 27ain o Fai. **Ni fydd gwersi yn parhau iddynt ar ôl hanner tymor HEBLAW am y cwrs peirianeg** ble bydd cyfle iddynt barhau a'r gwaith ymarferol ym mis Mehefin.

Mae hwn yn newid sylweddol ym mywydau'r disgyblion a deallwn fod cymaint o bobl ifanc wedi colli cyfleoedd i ddathlu cerrig milltir yn eu bywydau dros y flwyddyn ddiwethaf ac rydyn ni'n benderfynol o roi cyfleoedd i ddisgyblion blwyddyn 11 cael cyfle i ddod at ei gilydd ar ddiwedd eu hamser ffurfiol yn yr ysgol. Bwriadwn gynnal gweithgareddau iddynt ar y cyd ar gae'r ysgol ar brynawn lau, 27ain o Fai os fydd y tywydd yn caniatáu. Mae'r flwyddyn ysgol yn un swigen gyswllt felly mae modd iddynt ddod at ei gilydd, yn enwedig mewn gweithgaredd yn yr awyr agored. Bydd manylion pellach yn dilyn.

Bydd disgyblion blwyddyn 11 yn **derbyn eu canlyniadau dros dro ar ddydd Mercher, 16eg o Fehefin**. Er mwyn i ni baratoi disgyblion a rhieni am hwn bydd **cyfarfod rithiol yn egluro'r broses ar ddydd Llun 14eg o Fehefin**. Bydd apwyntiadau unigol yn cael eu trefnu er mwyn i bob unigolyn derbyn canlyniadau a chael cyfle i drafod eu graddau. Os dymuna ddisgybl neu riant trafod graddau ymhellach, bydd modd iddynt fwcio apwyntiad gydag aelod o'r tîm arwain ar gyfer fore lau neu Wener.

Bydd broses apêl yn cael ei gyhoeddi gan Gymwysterau Cymru/CBAC yn fuan ond deallwn fydd cyfnod o 5 diwrnod gan ddisgyblion i gofnodi apêl am y broses i ysgolion. Bydd broses apêl allanol ar gael ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau ffurfiol ym mis Awst.

Eleni bydd ein prosesau mynediad i'r chweched yn digwydd yn gynharach a bydd **diwrnod mynediad i'r chweched ar 23ain o Fehefin**. Bydd manylion yn dilyn.

Blwyddyn 12

Mae blwyddyn 12 yn gorffen eu hasesiadau UG dros yr wythnosau nesaf. Bydd y graddau maent yn derbyn yn nodi eu cyrhaeddiad yn eu hastudiaethau UG. Deallwn ni fydd y graddau yn cyfrannu at y graddau safon uwch terfynol. Cyn iddynt ddechrau ar eu hastudiaethau safon uwch bydd cyfle iddynt dreulio ychydig amser yn paratoi am y cam nesaf yn eu bywydau, boed hwn yn gais prifysgol, chwilio am swydd neu hyfforddiant/prentisiaeth. Bydd hefyd gweithgareddau ABCh ar elfennau eraill o baratoi am fywyd fel oedolyn. Bydd yr wythnos yma o weithgareddau yn digwydd ar lein a bydd disgyblion yn **dychwelyd i'r ysgol i dderbyn eu canlyniadau dros-dro ar ddydd Mawrth, 15fed o Fehefin**. Er mwyn i ni baratoi disgyblion a rhieni am hwn bydd **cyfarfod rithiol yn egluro'r broses ar ddydd Llun 14eg o Fehefin**.

Bydd apwyntiadau unigol yn cael eu trefnu er mwyn i bob unigolyn derbyn canlyniadau a chael cyfle i drafod eu graddau. Os dymuna ddisgybl neu riant trafod graddau ymhellach, bydd modd iddynt fwcio apwyntiad gydag aelod o'r tîm arwain ar gyfer prynhawn Mercher neu fore lau neu Wener.

Bydd broses apêl yn cael ei gyhoeddi gan Gymwysterau Cymru/CBAC yn fuan ond deallwn fydd cyfnod o 5 diwrnod gan ddisgyblion i gofnodi apêl am y broses i ysgolion. Bydd broses apêl allanol ar gael ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau ffurfiol ym mis Awst.

Yn dilyn y canlyniadau bydd cyfle i unigolion trafod y pynciau byddant yn astudio ym mlwyddyn 13 a bydd y gwaith dros y mis sy'n dilyn yn waith sy'n atgyfnerthu'r sgiliau allweddol ar gyfer y pynciau safon uwch. Gall ddisgyblion sy'n pryderu am y cam nesaf cael cefnogaeth gan Mr John.

Blwyddyn 13


Mae blwyddyn 13 yn dod i ddiwedd eu gyrfa ysgol mewn cyfnod gwahanol iawn. Mae disgyblion yn cwblhau eu cyrsiau unigol dros yr wythnosau nesaf. Bydd yr asesiadau ffurfiol yn gorffen ar fore Mercher, 26ain o Fai. **Ni fydd gwersi yn parhau iddynt ar ôl hanner tymor heblaw am ddisgyblion sy'n derbyn sesiynau i'w cefnogi wrth baratoi am y brifysgol.**

Deallwn fod cymaint o bobl ifanc wedi colli cyfleoedd i ddathlu cerrig milltir yn eu bywydau dros y flwyddyn ddiwethaf ac rydyn ni'n benderfynol o roi cyfleoedd i'r myfyrwyr hyn cael cyfle i ddod at ei gilydd ar ddiwedd eu hamser ffurfiol yn yr ysgol. Bwriadwn gynnal weithgaredd iddynt ar y cyd ar gae'r ysgol ar brynghawn Fercher, 26ain o Fai os fydd y tywydd yn caniatáu. Mae'r flwyddyn ysgol yn un swigen gyswilt felly mae modd iddynt ddod at ei gilydd, yn enwedig mewn gweithgaredd yn yr awyr agored. Bydd manylion pellach yn dilyn.

Bydd disgyblion blwyddyn 13 yn **derbyn eu canlyniadau dros dro ar ddydd Mawrth, 15fed o Fehefin**. Er mwyn i ni baratoi disgyblion a rhieni am hwn bydd **cyfarfod rithiol yn egluro'r broses ar ddydd Llun 14eg o Fehefin**. Bydd apwyntiadau unigol yn cael eu trefnu er mwyn i bob unigolyn derbyn canlyniadau a chael cyfle i drafod eu graddau. Os dymuna ddisgybl neu riant trafod graddau ymhellach, bydd modd iddynt fwcio apwyntiad gydag aelod o'r tîm arwain ar gyfer prynhawn Mercher neu fore lau neu Wener a bydd cyfleoedd i unigolion sy'n pryderu am y cam nesaf cael cefnogaeth gan Mr John.

Bydd broses apêl yn cael ei gyhoeddi gan Gymwysterau Cymru/CBAC yn fuan ond deallwn fydd cyfnod o 5 diwrnod gan ddisgyblion i gofnodi apêl am y broses i ysgolion. Bydd broses apêl allanol ar gael ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau ffurfiol ym mis Awst.

Dymunaf benwythnos da i chi gyd,



Dr Rhodri Thomas
(Pennaeth)